**LC1152**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2005

Diben y Rheoliadau yw darparu fframwaith ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau isod wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn y testun Saesneg, defnyddir y term rhyw benodol "him" ym mharagraff 5 yn Atodlen 2. [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

Mae geiriad Rheoliad 2(2)(a) yn y testun Cymraeg yn awgrymu bod "rhif" yn cyfeirio at "reoliad" yn unig yn hytrach nag at "reoliad" ac "Atodlen". Dylai gyfeirio at y naill a'r llall. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae testun Saesneg rheoliad 17(2)(b) yn cyfeirio at "records which are...not on the authority's premises". Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "gofnodion nad ydynt... yn cael eu cadw ym mangre'r awdurdod". O ganlyniad, mae'r modd y byddai'r ddarpariaeth yn cael ei dehongli o ran cofnodion a symudir o "fangre'r awdurdod" dros dro yn wahanol dan y ddau destun. Oherwydd hyn, dylid dileu'r geiriau "yn cael eu cadw" y tro cyntaf iddynt gael eu defnyddio. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae'r rhain yn fân gamgymeriadau drafftio neu deipio sydd yn addas i'w cywiro gan Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor hefyd wedi nodi nifer o fân wallau fformadu y gellir eu cywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 18 Hydref 2005